YSGOL DYFFRYN CONWY YN ENNILL GWOBR RYNGWLADOL

Mae Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst yn dathlu ar ôl ennill gwobr amgylcheddol sy'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol.

Dyma'r tro cyntaf i Gyngor Eco Ysgol Dyffryn Conwy ennill y Wobr Baner Werdd, diolch i'r rhaglen addysg amgylcheddol, Eco-Sgolion.

Mae Eco-Sgolion yn rhaglen ryngwladol sy'n cael ei chynnal yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol Cadwch Gymru'n Daclus, ac mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae dros 90% o ysgolion Cymru wedi cofrestru â'r rhaglen.

Mae Eco-Sgolion yn ysbrydoli ac yn grymuso disgyblion i arwain newid yn eu cymunedau, ac yn eu helpu i ddysgu am fyw'n gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnyn nhw i wneud newidiadau a fydd o fudd i'w hysgol, yr amgylchedd lleol a'r gymuned ehangach – fel lleihau gwastraff, defnyddio ynni, trafnidiaeth, byw'n iach a phroblemau sbwriel.

Fel rhan o'r asesiad Eco-Sgolion, fe wnaeth Cyngor Eco Ysgol Dyffryn Conwy gyflwyniad am y gwaith y maent wedi ei wneud dros y pum mlynedd ddiwethaf ac yn benodol ers mis Medi 2016 sydd yn cynnwys lleihau'r defnydd o drydan drwy fonitro pa ystafelloedd dosbarth sy'n diffodd eu goleuadau yn ystod yr awr ginio. Cymrodd yr ysgol ran yn y cynllun 'Switch Off Fortnight' yn ystod mis Tachwedd a oedd cael ei drefnu gan gwmni EON.

Fe gymrodd y Cyngor Eco ran yn ogystal yn y Cynllun Di-sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus drwy gynnal gwasanaeth i flynyddoedd 7-13 i ofyn am gymorth pawb yn yr ysgol i leihau sbwriel o amgylch yr ysgol. Casglwyd sbwriel o ddau fan yn unig yn yr ysgol ar gychwyn y cynllun ym mis Mai; codwyd 5 kg o sbwriel o'r afon ac 1kg o'r cae pob tywydd. Cynhaliwyd prynhawn casglu sbwriel o amgylch yr ysgol ac ar hyd Ffordd Nebo ar gychwyn mis Mehefin a chasglwyd 6kg o sbwriel o'r holl ardaloedd y tro hwn. Felly gwelwyd lleihad sylweddol yn y sbwriel a oedd ar lawr a braf iawn oedd gweld hyn.

Esboniodd y Cyngor Eco hefyd yn ystod yr asesiad bod cynllun yn bodoli yn yr ysgol i yrru eitemau plastig o'r ystafell athrawon i'r Adran Dechnoleg er mwyn cael eu hailgylchu er mwyn eu defnyddio ar gyfer prosiect penodol ym mlwyddyn 8 o fewn y gwersi technoleg.

Dywedodd Catrin Hughes o Cadwch Gymru'n Daclus:

"Roedd yn bleser gweld brwdfrydedd eich ysgol tuag at y rhaglen ac yn wych i glywed am y gwaith trylwyr sydd wedi bod yn disgwydd i geisio, a llwyddo, i leihau sbwriel o amgylch yr ysgol. Dylai aelodau'r Cyngor Eco fod yn falch iawn o'u hymroddiad i ofalu am yr amgylchedd, yn ogystal ag effaith cadarnhaol eu gweithredoedd".

Ychwanegodd hefyd :

"Llongyfarchiadau i Ysgol Dyffryn Conwy ar eu camp eithriadol. Maen nhw'n enghraifft wych o ymrwymiad pobl ifanc yng Nghymru i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'w hysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach a'r amgylchedd lleol."

Rhai aelodau o Gyngor Eco Ysgol Dyffryn Conwy o'r chwith i'r dde; Yann Rigotti, Caleb Jones, Holly Carpenter, Marissia Jones, Sara Roberts a Courtney Parry a'r Cydlynydd Eco Mrs Anna S. Roberts yn derbyn y Faner Werdd.